| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23 Tachwedd 2016 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Teitl:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran sut y mae'n darparu gwasanaeth, darparu sicrwydd, cwblhau adolygiadau, perfformiad ac effeithiolrwydd mewn ysgogi gwelliant.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Yn ddiweddar, mae'r adroddiad hwn wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor fel 'adroddiad gwybodaeth' nad yw'n ymddangos ar agenda ffurfiol y Pwyllgor. Mae hyn yn golygu mai dim ond adroddiadau Archwilio Mewnol sydd 'heb' sicrwydd neu â sicrwydd 'isel' sy'n cael eu trafod yn y Pwyllgor, sy'n rhoi argraff negyddol o'r sefyllfa gyfan gwbl o fewn y Cyngor, gan fod y rhan fwyaf o adroddiadau Archwilio Mewnol yn gadarnhaol.

Hefyd, un o swyddogaethau'r Pwyllgor yw i fonitro cynnydd Archwilio Mewnol a'i berfformiad, rhywbeth nad yw'n digwydd yn ffurfiol pan fo adroddiad cynnydd yn 'adroddiad gwybodaeth'.

O ganlyniad mae dull newydd o ddiweddaru cynnydd wedi ei gynllunio, a gellir ei gyflwyno i bob cyfarfod pwyllgor.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Mae'r Pwyllgor yn ystyried cynnwys a fformat y diweddariad cynnydd amgaeedig ac yn penderfynu a yw hyn yn ddigonol i'w alluogi i gyflawni ei rôl monitro ac yn darparu safbwynt cytbwys o'r archwiliad o weithrediadau'r Cyngor.

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae manylion llawn yn cael eu darparu yn yr adroddiad cynnydd amgaeedig. Hefyd mae'r Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio a'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cyfarfod yn ddiweddar gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i ddarparu sicrwydd ar eu cynlluniau i reoli'r newidiadau cyfredol a'r rhai sydd i ddod yn y tîm Archwilio Mewnol fydd yn effeithio ar gapasiti am weddill 2016/17 a'r rhan fwyaf o 2017/18.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**
   Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**
   Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
   Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
    Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud Penderfyniad**
    Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.